



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

26 MAI 2021

Adroddiad gan: Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Adolygiad Thematig Estyn - adroddiad cynnydd ar yr argymhellion

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno adroddiad cynnydd ar argymhellion adolygiad thematig Estyn 'Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UC Dau i ymateb i COVID-19' i aelodau'r Cyd-Bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Mewn ymateb i gais gan y Gweinidog Addysg, gofynnwyd i Estyn gynnal adolygiad thematig o ddulliau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o gefnogi dysgu a dysgwyr sy'n agored i niwed yn ystod cyfnod COVID-19.

2.2 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cyfnod o ddiwedd tymor yr haf i ddiwedd yr hydref 2020. Rhoddir trosolwg o'r ffordd y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi gweithio gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UC Dau) i hyrwyddo dysgu a chefnogi disgyblion bregus yn ystod cyfnod COVID-19 rhwng Mehefin a Thachwedd 2020, sef y cyfnod pan oedd ysgolion yn ailagor yn dilyn y cyfnod clo. Mae'n cofnodi'r ffyrdd y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi addasu'u gwaith i ymateb i'r heriau yn deillio o COVID-19.

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Mae cwmpas yr adroddiad thematig hwn yn cynnwys graddau'r cymorth a ddarparodd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UC Dau yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddwy agwedd yn benodol:

- Hyrwyddo dysgu – ansawdd y cynnig dysgu a sut mae canllawiau pellach a dysgu proffesiynol wedi ategu hyn?
- Cefnogi disgyblion bregus – sut gwnaeth yr awdurdod lleol dargedu gwasanaethau a chymorth at ddisgyblion bregus i'w helpu i ymhél â dysgu? Pa rwystrau sy'n bodoli o hyd?

3.2 Mae'r adroddiad (Atodiad 1) yn amlinellu'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion i Lywodraeth Cymru weithio gyda chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, a phartneriaid a darparwyr eraill.

3.3 Mae Atodiad 2 yn amlinellu deilliant yr adolygiad yn GwE. Mae'r cynnwys wedi'i seilio ar gyfarfodydd rhithwir gyda swyddogion ynghyd â gwybodaeth o sampl o ysgolion ac UCD yn yr awdurdodau addysg ar draws rhanbarth GwE.

3.4 Ynghlwm (Atodiad 3) ceir adroddiad cynnydd sy'n amlinellu cyfraniad GwE wrth ymateb i'r argymhellion, gan fanylu ar y Gweithredu, Effaith a'r Mannau Twf ar gyfer y cyfnod Ionawr 2021 i Ebrill 2021.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 – Adroddiad Thematig Estyn
Atodiad 2 – Llythyr GwE
Atodiad 3 – Adroddiad cynnydd ar yr argymhellion

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Mae nifer o ganfyddiadau ac argymhellion gan Estyn i Lywodraeth Cymru ar dudalennau 4-6 o Atodiad 1, tra mae rhan 5.1 o'r adroddiad blaen yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Felly, cymeraf bydd unrhyw ymateb pellach gan GwE i argymhellion yr adolygiad thematig yma i'w flaenoriaethu o fewn eu hadnoddau presennol, wrth i'r agweddau hyn fynd yn rhan o'r gwaith beunyddiol.